Better Organic Business Links, Organic Centre Wales,
IBERS, Aberystwyth University SY23 3EB Tel: 01970 622248
bobl-project@aber.ac.uk www.organiccentrewales.org.uk

Gwell Cysylltiadau Busnes Organig
BOBL
Better Organic Business Links

Issue 6 Spring 2011 An Organic Centre Wales project



# Sustainability and costs

**We have started work on an exciting new project looking at the sustainability footprinting of supply chains and we want organic businesses in Wales to get involved!**

Weir: Total Supply Chain Sustainability will be providing a free consultancy service to a cross section of Welsh organic businesses which could result in savings of up to 25% off supply chain costs.

Sustainability footprinting provides a real opportunity for businesses to reduce distribution costs and wastage, and increase profit margins. Not only will it reduce costs but it will help businesses reduce their environmental impact, improve business reputation and help grow the market.

The project will look at the whole supply chain, from sourcing raw materials to processing, packaging, storage, distribution, selling and also what happens at the end of the chain with the customer, including waste. It will cover a wide range of environmental issues such as energy, waste, water, land stewardship, food miles as well as the social and ethical factors such as working practices, commercial relationships and community development.

The project will benchmark participants' individual supply chains, identifying opportunities to make savings and resulting in a bespoke sustainability action plan, which could bring about up to a 25 per cent reduction in supply chain costs. If you are interested in getting involved, or would like more information then please contact: ***Lucy Watkins*** ***luw1@aber.ac.uk*** or your Field Officer:

***Mari Jones***
***mzj@aber.ac.uk 07791 442498***

***Philip Jones***
***pij@aber.ac.uk 01970 622100***

***Tony Little***
***jll@aber.ac.uk 01970 621632***

If you would like information about calculating carbon footprints on your farm then please take a look at the following reports that BOBL have published: A Farmer's Guide to Carbon Footprint Calculators and Carbon Footprinting for Farm Businesses. These can be downloaded from the OCW website www.organiccentrewales.org.uk, or for a hard copy please contact us.

## Farm visits for school groups

**The Soil Association have been continuing to organise school visits to farms around Wales on behalf of BOBL.**

This gives school children an exciting day out, as well as showing them how their food is produced. Around 200 children have taken part in farm trips organised throughout Wales over the last six months, and the programme will continue throughout 2011.

As well as visiting farms, school children have been organising school farmers' markets, which give children and parents the opportunity to meet their local food producers and buy fresh, seasonal and organic produce. The farmers' markets help build strong links within the community, as well as providing easy access to good food. To top all this off the farmers' markets help raise funds for the schools, which allows them to invest in future sustainability projects.

**Contact: Dafydd Owen**
**odo@aber.ac.uk**

# Sustainable Food Communities



**The Sustainable Food Communities (SFC) project kicked off in January with the appointment of Phil Morgan as Project Coordinator.** The SFC project aims to develop a positive and sustainable food culture in Wales by bringing local communities together to put forward ideas on how they would like to shape their local food culture. To start with we will be working in Newtown, Cardiff Riverside, Gwynedd and Pembroke (and Pembrokeshire). Initial work in these areas will be launched with a consultation event so that we can bring together all members of the community – farmers, caterers, gardeners, local NGOs, local authorities, chefs or individuals with ideas – whoever you are, we would like to hear from you. There is limited funding available in each area to help support up to four project ideas.

***For more information please contact Phil Morgan: PMorgan@soilassociation.org***

## Food Ethics

**The Food Ethics Council (FEC) have been working with BOBL to explore ways we can help support businesses operate ethically, and help them get a fair deal with suppliers and customers.**

The Food Ethics Council has developed 'Ethics: a Toolkit for Welsh organic businesses', which provides guidance on working through ethical issues or decisions that your business may face. In addition to the Toolkit, BOBL held a workshop led by Dr Tom MacMillan (FEC) in March for businesses to explore ethical issues in more detail. We will be running more of these workshops in the future. The FEC will also provide individual support for up to 10 Welsh organic businesses who would like to explore how to make decisions ethically within their own company. If you are interested in attending one of the future workshops, or receiving individual business support from the FEC please contact Lucy Watkins at luw1@aber.ac.uk. *You can download a copy of the Toolkit by visiting the publications page of the Organic Centre Wales website www.organiccentrewales.org.uk*

***Contact: Lucy Watkins luw1@aber.ac.uk***



## Tourism...

**ADAS have been working with BOBL on a number of publications aimed at supporting the organic tourism industry in Wales.** A series of case studies have already been published, and a new report 'A Sustainable Guide to Agritourism', will be available in May. A series of workshops have been held for Welsh tourism and hospitality businesses, including the very successful Cooking for Allergies and Food Intolerances, led by Daphne Lambert (Greencuisine, Penrhos Court). These were inspiring and very engaging days, and of course Daphne's cakes and passion for food and nutrition made them even more memorable! We plan to run more courses in the near future looking in detail at renewable energy and providing general guidance on how to run a successful agritourism business.

***Contact: Lucy Watkins luw1@aber.ac.uk***

## Dates for your diary:

**Royal Welsh Spring Festival**
21-22 May: Come and visit us in the Green Horizons area
*www.rwas.co.uk/en/garden-festival*

**Open Farm Sunday**
Several organic farms around Wales are open to the public
*www.leafuk.org*

**Hay Festival**
26 May-5 June • *www.hayfestival.com*

**Royal Welsh Show**
18-21 July • *www.rwas.co.uk*

**Organic month**
September 2011
*Keep your eye out for exciting events in your area*

The BOBL project aims to build better links throughout the organic business community to deliver profitability, sustainability and exemplary environmental performance.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Gwell Cysylltiadau Busnes Organig, Canolfan Organig Cymru,
IBERS, Aberystwyth University SY23 3EB Tel: 01970 622248
bobl-project@aber.ac.uk www.canolfanorganigcymru.org.uk

Gwell Cysylltiadau Busnes Organig
BOBL
Better Organic Business Links

Rhifyn 6 Gwanwyn 2011

Un o brosiectau Canolfan Organig Cymru



# Cynaliadwyedd a Chostau

**Rydym wedi dechrau gwaith ar brosiect cyffrous newydd sy'n edrych ar gyfrifo ôl troed cadwyni cyflenwi o ran cynaliadwyedd ac rydym am i fusnesau organig yng Nghymru fynd ati i fod yn rhan ohono.**

Bydd Weir: Total Supply Chain Sustainability yn darparu gwasanaeth ymgynghori newydd i drawstoriad o fusnesau organig Cymreig a allai arwain at arbedion hyd at 25% yng nghostau'ch cadwyn gyflenwi.

Mae cyfrifo ôl troed cynaliadwy'n darparu cyfle go iawn i fusnesau leihau costau dosbarthu a gwastraff ac i gynyddu eu ffiniau elw. Nid yn unig y bydd yn lleihau'r costau ond bydd hefyd yn helpu busnesau i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd, i hybu enw da busnesau ac yn helpu i dyfu'r farchnad.

Bydd y prosiect yn edrych ar y gadwyn gyflenwi gyfan, o gael hyd i ddeunyddiau crai a'u prynu, prosesu, deunydd pacio a storio, drwodd i'r dosbarthu, gwerthu a defnyddio'r cynhyrchion – gan gynnwys unrhyw wastraff ar ôl iddynt gael eu defnyddio. Bydd y prosiect yn ymwneud ag ystod eang o faterion amgylcheddol megis ynni, gwastraff, dŵr, stiwardiaeth tir, milltiroedd bwyd yn ogystal â ffactorau cymdeithasol a moesegol megis arferion gweithio, cysylltiadau masnachol a datblygu cymunedol.

Bydd y prosiect ym meincnodi cadwyni cyflenwi'r cyfranogwyr unigol gan adnabod cyfleoedd i wneud arbedion a bydd yn arwain at gynllun gweithredu cynaliadwyedd pwrpasol a allai arwain at hyd at oddeutu 25 y cant o ostyngiad yng nghostau'r gadwyn gyflenwi. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod ynghlwm â'r prosiect, neu os hoffech ragor o wybodaeth, dylech gysylltu â ***Lucy Watkins*** ***luw1@aber.ac.uk*** neu'ch Swyddog Maes:

***Mari Jones***
***mzj@aber.ac.uk 07791 442498***

***Philip Jones***
***pij@aber.ac.uk 01970 622100***

***Tony Little***
***jll@aber.ac.uk 01970 621632***

Os hoffech wybodaeth am gyfrifo'ch ôl troed carbon ar y fferm, dylech fwrw golwg ar yr adroddiadau canlynol sydd wedi'u cyhoeddi gan BOBL: Canllaw Amaethwyr i Garboniaduron a Chyfrifo Ôl Troed Carbon i Fusnesau Fferm. Gellir lawrlwytho'r rhain oddi ar wefan Canolfan Organig Cymru www.canolfanorganigcymru.org.uk, neu os ydych eisiau copi caled dylech gysylltu â ni.

## Ymweliadau â ffermydd i grwpiau ysgolion

**Mae Cymdeithas y Pridd wedi parhau ar ran BOBL i drefnu ymweliadau ysgol â ffermydd trwy Gymru.**

Mae hyn yn cynnig diwrnod allan cyffrous i blant yn ogystal â dangos iddynt sut mae eu bwyd yn cael ei gynhyrchu. Mae oddeutu 200 o blant wedi cymryd rhan mewn ymweliadau â ffermydd sydd wedi'u trefnu ledled Cymru yn ystod y chwe mis diwethaf, a bydd y rhaglen yn parhau drwy gydol 2011.

Yn ogystal ag ymweld â ffermydd, bu plant ysgol wrthi hefyd yn trefnu marchnadoedd ffermwyr mewn ysgolion sy'n rhoi cyfle i blant a rhieni i gwrdd â'u cynhyrchwyr bwyd lleol ac i brynu cynnyrch ffres, tymhorol ac organig. Mae'r marchnadoedd ffermwyr yn helpu i godi arian i'r ysgolion, sy'n gadael iddynt fuddsoddi mewn prosiectau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

**Cyswllt: Dafydd Owen**
**odo@aber.ac.uk**

# Cymunedau Bwyd Cynaliadwy



**Cychwynnodd y prosiect Cymunedau Bwyd Cynaliadwy (SFC) ym mis Ionawr wrth benodi Phil Morgan yn Gydlynydd i'r Prosiect.** Nod y prosiect yw datblygu diwylliant bwyd cadarnhaol a chynaliadwy yng Nghymru trwy ddod â chymunedau lleol ynghyd i gyflwyno syniadau ynglŷn â sut yr hoffent fynd ati i siapio eu diwylliant bwyd lleol. Ar y cychwyn, byddwn yn gweithio yn y Drenewydd, Glan-yr-afon Caerdydd, Gwynedd a sir a thref Penfro. Ar y dechrau bydd y gwaith yn yr ardaloedd hyn yn cael ei lansio gyda digwyddiad ymgynghori fel y gallwn ddwyn ynghyd bob aelod o'r gymuned – ffermwyr, arlwywyr, garddwyr, cyrff anllywodraethol, awdurdodau lleol, cogyddion neu unigolion sydd â syniadau – pwy bynnag ydych chi, hoffem glywed gennych chi. Mae cyllid cyfyngedig ar gael ym mhob ardal i helpu i gynnal hyd at bedwar syniad ar gyfer prosiect.

***Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Phil Morgan:***
*PMorgan@soilassociation.org*

## Moeseg Fwyd

**Bu'r Cyngor Moeseg Fwyd yn gweithio â BOBL i edrych ar ffyrdd y gallwn helpu cefnogi busnesau i weithredu'n foesegol a'u helpu i sicrhau bargen deg â chyflenwyr a chwsmeriaid.**

Mae'r Cyngor Moeseg Fwyd wedi datblygu "Moeseg: pecyn cymorth i fusnesau organig Cymru", sy'n cynnig arweiniad ynglŷn â delio â materion moesegol neu benderfyniadau y bydd efallai'n wynebu'ch busnes. Yn ychwanegol at y Pecyn Cymorth, bu BOBL yn cynnal gweithdy dan arweiniad Dr Tom MacMillan o'r Cyngor Moeseg Fwyd ym mis Mawrth i fusnesau gael edrych ar faterion moesegol yn fanylach. Byddwn yn rhedeg mwy o'r gweithdai hyn yn y dyfodol. Bydd y Cyngor hefyd yn cynnig cymorth unigol i hyd at 10 o fusnesau organig Cymreig sy'n dymuno edrych ar sut i wneud penderfyniadau'n foesegol yn eu sefydliad eu hunain. Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu un o'r gweithdai yn y dyfodol neu dderbyn cymorth busnes unigol gan y Cyngor cysylltwch â Lucy Watkins luw1@aber.ac.uk. *Gallwch lawrlwytho copi o'r Pecyn Cymorth trwy ymweld â thudalen cyhoeddiadau gwefan Canolfan Organig Cymru www.organiccentrewales.org.uk*

***Cyswllt: Lucy Watkins*** *luw1@aber.ac.uk*



## Twristiaeth

**Bu ADAS yn cydweithio â BOBL ar nifer o gyhoeddiadau sydd wedi'u hanelu at gefnogi'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru.** Mae cyfres o astudiaethau achos eisoes wedi'u cyhoeddi a bydd adroddiad newydd 'Canllaw Cynaliadwy i Amaeth-dwristiaeth' ar gael ym mis Mai. Mae cyfres o weithdai wedi'u cynnal i fusnesau twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru gan gynnwys gweithdy hynod lwyddiannus dan arweiniad Daphne Lambert (Greencuisine. Plas Penrhos) 'Coginio ar gyfer Alergeddau ac Anioddefiadau Bwyd. Digwyddiadau ysbrydoledig ac ymgysylltiol iawn oedd y rhain, ac wrth gwrs, golygai teisennau Daphne a'i brwdfrydedd dros fwyd a maeth eu bod yn fwy cofiadwy fyth! Ein bwriad yw cynnal mwy o gyrsiau yn y dyfodol agos, gan edrych yn fanwl ar ynni adnewyddadwy a darparu arweiniad cyffredinol ynglŷn â sut i redeg busnes amaeth-dwristiaeth yn llwyddiannus.

***Cyswllt: Lucy Watkins***
*luw1@aber.ac.uk*

## Digwyddiadur

**Gŵyl Wanwyn Sioe Frenhinol Cymru**
21-22 Mai : Dewch i ymweld â ni yn ardal y Gorwelion Gwyrdd
*www.rwas.co.uk/en/garden-festival*

**Dydd Sul Agored ar y Fferm**
mae sawl fferm organig ar hyd a lled Cymru'n agored i'r cyhoedd
*www.leafuk.org*

**Gŵyl y Gelli**
26 Mai-5 Mehefin • *www.hayfestival.com*

**Sioe Frenhinol Cymru**
18-21 Gorffennaf • *www.rwas.co.uk*

**Y Mis Organig**
Medi 2011 • *Cadwch eich llygaid yn agored am ddigwyddiadau cyffrous yn eich ardal*

Nod y prosiect BOBL ywmeithrin gwell cysylltiadau ledled y gymuned fusnes organig i sicrhau proffidioldeb, cynaliadwyedd a pherfformiad amgylcheddol penigamp.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government